Cyfres Llanbedr | Tachwedd, 1930. | Cyf. 30. Rhif 11.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y Golygydd. | Y Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

Hanes Capeli'r Enwad—
Abertawe.
Gweinidogion Abertawe.
Taith Hynod.
Gip.
Dirgelwch ein Ffawd.
Pan gilia'r Niwl.
Marwgofion.
Nodion yr Eglwysi.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J. D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—
Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

YN AWR YN BAROD.

HANES

CYNULLEIDFAOEDD UNDODAIDD

SIR ABERTEIFI

(Gyda Darluniau)

GAN

T. OSWALD WILLIAMS, M.A.

(Gweinidog Brondeifi a Chae'ronnen; Golygydd 'Yr Ymofynnydd').

Pris 1/-. Trwy'r Post 1/2.

Anfoner archebion (*gyda blaendal*) at—
J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

CHANNING HOUSE SCHOOL

HIGHGATE, LONDON, N.6.

Public School for Girls.

For Particulars apply to THE HEAD MISTRESS.

T. E. Jones. & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Cyfres Llanbedr. TACHWEDD, 1930. Cyf. XXX. Rhif 11.

Hanes Capeli'r Enwad yng Nghymru.

ABERTAWE.

NID oes nemor Eglwys a'i gwreiddiau yn mynd yn ol ymhellach nag hen Eglwys Abertawe. Ni wyddys pwy a'i crynhodd ar y dechrau ond mynnir ei bod wedi'i chrynhoi cyn 1641. Er na wyddom hynyna, gwyddom fod Ambrose Mostyn yn adeg y werinlywodraeth "was required to preach and officiate as well in ye Parish Church of Swansea as in ye parishes and places thereto adjacent . . . . July 27, 1646."

Dan Ddeddf y Pum Milltir ni chaniateid i weinidog wedi'i droi allan ddod o fewn pum milltir i unrhyw dref. Nid oes le i gredu na roid y ddeddf mewn gweithrediad ond dyma sydd yn od. Yr oedd o leiaf bedwar o weinidogion felly yn byw yn Abertawe cyn 1655—Marmaduke Matthews hen ficer St. John's, Daniel Higgs Rhossily, Stephen Hughes a William Thomas. Yr oedd yma nythaid go dda felly fel rhwydd deall fod yma yn 1676 ryw 292 o sectwyr. Gwyddom iddynt ill pedwar gael trwydded i bregethu yno.

Swansea : Daniel Higgs at his own house	17 April	Ejected Porteynon 1662	Congr.
The House of Stephen Hughes	20 April	,,	Congr.
Marmaduke Matthews at his own house	12 April	Ejected Swansea 1662	Ind.
Lewis Thomas at the house of Wm. Dykes.	30 Sept.	,,	Bapt.

Ni wyddys nemor am waith y bobl hyn yn y dref ar wahan i'r ffaith fod yma 292 o sectwyr erbyn 1676. Yn 1689 codwyd capel y dref, ond ymhen deng mlynedd aeth y capel yn rhy fach. Fe'i hardrethwyd i gynulleidfa o Fedyddwyr ac y mae'n ddiddorol sylwi fod yma dair cynulleidfa ; y gynulleidfa o Fedyddwyr (y fam eglwys), y gynulleidfa yn y Backlane a chynulleidfa'r *Ty'r Engine* y sydd ynghlwm a'n hanes yn Abertawe.

Cynulleidfa Backlane.

Er deall yr hanes fe adawn ni'r gynulleidfa o Fedyddwyr neu'r fam eglwys fel y'i gelwid am y foment gyda dweyd ei bod yn derfysglyd yno tua 1782—1785 ac ymedy rhyw ddeugain a'r eglwys gan ffurfio eglwys Backlane 1788. Yn 1831 codwyd yma gapel y Bedyddwyr Cymraeg. Nid oes betruster na wanychodd y rhwyg y fam eglwys oherwydd ceir nad oedd yno yn 1794 ond rhyw drigain aelod. Dechreuwyd y gynulleidfa ym Macklane gan wyr anfodlon ar y fam eglwys ond odid a chynhyddodd yn fawr. Dywedir fod yma yn agos i ddau gant o aelodau cyn diwedd y ganrif, ond bu hithau yn yr ystorm. Ei gweinidog cyntaf oedd Daniel Jones a ordeiniwyd yn 1792. Yn y rhwyg fawr Arminaidd yn 1799/1800 yr oedd Daniel Jones a nifer o'i ddilynwyr yn tueddu at Arminiaeth ac nid oedd dim am dani ond eu diarddel. Pan ddaeth Daniel Jones yn ei ol i Gymru yn Hydref 1802, deallodd " that the party who had sided with him in the former disputes still kept together as a distinct society from the Calvinists," (Unit. Theol. Mag. 1803. ii. P. 53).

Yn Abertawe yr oedd yna gapel gan y Bedyddwyr Cyffredinol. Hwyrach mai dilynwyr Dr. Daniel Jones oedd ei sylfaenwyr. Rhyw le go anniben a thywyll ydoedd mewn rhyw gwrt o'r enw Baptist Court off High Street rhyw gan llath o orsaf y G.W.R. gogyfer a'r Mackworth Arms Hotel. Ni bu rhyw lawer o lewych arno a thua chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg 1850—1860 Evan Lloyd o'r Nottais a bregethai amlaf yma. Y mae wedi diffodd ers blynyddoedd lawer.

Cynulleidfa Ty'r Engine.

Rywbryd yn hanner olaf y ddwyfed ganrif ar bymtheg bu rhwygo yng nghynulleidfa Lewis Rees yn y Mynydd Bach. Wedi'r rhwygo aeth nifer allan gan ffurfio eglwys y Bedyddwyr ar 22 Hydref 1780 pan fedyddiodd John Richards, Castellnewydd Emlyn saith o bersonau ac yn eu plith un Mr. Powell a fu'n foddion i gael iddynt ryw hen *dy engine* ddwy filltir o Abertawe. Pregethid yma gan John Richards a Nathaniel Williams a hawdd adnabod y gynulleidfa oddiwrth y pregethwyr. Yr oedd yn y Gymdeithas 1789—1791 ond aeth llawer o'r aelodau i ymuno ag Eglwys y

Bedyddwyr yn y Backlane. Ysgrifennai Christmas Evans ati yn 1796—8 o blaid syniadau Mclean a J. R. Jones o Ramoth. Nid oes betruster nad oedd y gynulleidfa wedi'i chorddi drwyddi gan y syniadau newydd a oedd yn gwau drwy'r wlad fel yr aeth yn ddeilchion.

Yn nechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yr oedd Thomas Jenkins "of Swansea" fel y'i gelwid yn mynychu cyfarfodydd y Bedyddwyr Cyffredinol a cheir yn y gweithrediadau,—

"Oct. 11, 1802. Brother T. Jenkins of the Engine Church preached at Llangendeirne."

Yn y Monthly Repository, 1809, td. 697 ceir a ganlyn,—

"Meeting of the Baptist and Paedo Baptist Ministers "All Unitarians" to consider means of restoring the worship of one God held at the Chapel of Mr. Jenkins the Gen. Bap. Minister of Swansea."

Fe geir enw Benjamin Davies, Abertawe ar restr gweinidogion Undodaidd mor ddiweddar a 1846 (Inquirer, td. 595).

Ni wna'r cynulleidfaoedd a'r anesmwythyd ond awgrymu yr amseroedd. Nid oeddent namyn dŵr tardd yn ymddangos dros ennyd ac yna yn mynd i golli neu yn newid ei gwrs o leiaf.

* * *

Yn 1698 yr oedd y Capel Presbyteraidd wedi'i ardrethu i'r Bedyddwyr a hwythau yn eu tro wedi rhannu a rhwygo. Yn y flwyddyn hon codwyd capel newydd gan y gynulleidfa Bresbyteraidd fel y'i gelwid er ei bod yn amheus a deilyngai'r enw. "Chiefly raised by the gratuitous exertions of labouring men during hours of leisure and the materials provided without charge by them and others."

Yn ol ysgrif gan Mr. Moy Evans, cyfreithiwr, ac aelod o Gapel yr Undodiaid yn Abertawe,—

"The oldest documents relating to the church premises and now in the possession of the trustees is a conveyance dated the 20th day of September 1699 made between William Robins of the Parish of Oystermouth in the County of Glamorgan and Rose his wife of the one part and John Watkins of Gellyhydr in the Parish of Ilston in the said County, Gentleman, William Rogers Mercer, and Robert Whithear both of the town of Swanzey

in the said County, of the other part * * *. All those two severall messuages, Burgages or mansion houses situate lyeing and being within the town of Swanzey . . . . . near a street then called High Street within the Old North Gate * * *."

Ar y weithred fe geir yr ysgrifen—

"I presume these two houses occupied the site upon which the Unitarian Chapel (since pulled down) was built in 1698. R. Aubrey."

Ni wyddys dro hir am unrhyw gyfnewid yn syniadau'r gynulleidfa ac fe'i ceir yn rhestr Dr. John Evans, fel "Independent" ond bob yn dipyn gelwir ei gweinidogion yn Bresbyteraidd. Y mae'n anodd dyddio cyfnewid mewn syniadau ond y mae'n amheus a fedrir ei ddyddio'n gynt na 1750, wedi marw George Palmer. Awgrymir fod Solomon Harris yn Armin cyn diwedd ei oes ond nid oedd yn rhy Arminaidd i gydweithredu a Lewis Rees, Mynydd Bach er dechrau gwasanaeth Cymraeg yn Abertawe. Dyna ond odid ddechrau Capel Ebeneser yn 1804.

Yn 1811 daeth y Cenhadwr Lyons ar ymweliad a Chymru a cheir ei adroddiad yn y Monthly Repository,—

"June 22. Swansea. I took up my abode at Mr. Job David's. I preached at the Presbyterian Place where Mr. Howel is the minister, a truly respectable man, now far advanced in years. I had the pleasure of conversing with several respectable people belonging to this congregation who are truly in earnest respecting the promoting of Unitarianism. I preached in the Unitarian Baptist Chapel where Mr. Jenkins is the minister and where Mr. David sometimes preaches. This congregation is but small."

Nid oedd pethau yn rhy esmwyth yn y Capel Presbyteraidd oherwydd erbyn 1814 yr oedd yn rhwyg yma a Mr. Howel a nifer o'i ddilynwyr oherwydd gwrthod o'r mwyafrif o'r eglwys dderbyn rhyw "fyfyriwr o Gaerfyrddin" fel cydweinidog iddo yn ymadael gan ffurfio Eglwys Annibynnol Castle Street. Y mae'n werth manylu er canfod y berem yn y blawd. Yn yr Antiq. Notes G.E.E. Vol. III. td. 90, etc., fe geir llythyr o waith Lydia Voss merch Harris gweinidog Capel High Street 1750—1785. Anfonodd Howel lythyr am Mr. Thomas, gwr o egwyddorion Undodaidd i'w gynorthwyo am fis. Mynnir mai John Thomas, Pantydefaid ydoedd ond nid oes sicrwydd. Nid oedd yr eglwys yn Undodaidd yr adeg honno oherwydd dywed Lydia Voss yn y llythyr,—

"I will add, never will I go there if my dear Redeemer! is made no more than a mere man."

Ar y llaw arall nid yw'n canmol Mr. Howel,—

"In the first place Mr. Howel's great error was in going from his own people to consult some of the same way of thinking as old Lewis Rees * * Joint with Mr. Howel they sent for a young student from Carmarthen to assist Mr. Howel. Mr. Rowland (in particular I would not submit to any such thing for these Calvanistical Bigots to enter within their walls. 'What shall I say to Billy Harries (if ever I see him): these were his words. In consequence of all this, there is a new meeting house building in Castle Bailey Street."

Rhyw betruso ydoedd y gynulleidfa—yn ofni mynd ymlaen, ond yn benderfynol o beidio troi yn ol.

Erbyn ymweliad Wright yn 1816 ceir,—

"Swansea. A very respectable and improving Congregation. Mr. Aubrey labours . . . . appear to have been highly useful. There had been great opposition by the orthodox who had issued intemperate publications against Unitarianism."

Gwnaeth yr eglwys ddewisiad doeth yn 1814 drwy wahodd Richard Aubrey (1814—1836) i fod yn weinidog arni oherwydd ei fod yn enedigol o Abertawe ac yn gwybod "The rugged Church business."

Dan ei weinidogaeth cerddodd yn ei blaen ac ni freuddwydiodd am edrych yn ol wedi hyn. Yn 1846—1847 codwyd y capel presennol ac yn ystod yr amser hwn addolai'r gynulleidfa yn yr hen gapel Baptist Court. Cyn hyn cynhelid gwasanaethau Cymraeg yma.

Drwy'r ganrif breintiwyd y gynulleidfa a gweinidogaeth gref a gwasanaethwyd yma gan rai o wyr enwocaf yr enwad. Y mae'n syn na buasai cynulleidfa Abertawe yn llawer lluosocach nag ydyw oherwydd mewn tre o faintioli Abertawe dylasai fod yma ddigon a'u syniadau yn ddigon rhyddfrydig a blaengar i lanw'r Capel. Y mae yna yn hanes pob Capel ei lanw a'i drai. Y mae'r treio wedi bod ers tro bellach a gobeithio y daw'r llanw yng nghil y nawfed don fel y byddo Hen Eglwys Abertawe yn olau i oleuo'r dre am flynyddoedd hir.

Rhestr o'r Gweinidogion.

EGLWYS UNDODAIDD ABERTAWE.

Daniel Higgs	... 1698—
George Denbury	...—1719—
Robert Whithear	...—1725—1726—
Zechariah Davies	...—1722—1724—
George Palmer	... 1726—1749/50
Solomon Harris	... 1750—1785
William Howell	... 1786—1814
Richard Aubrey	... 1814—1836
George Brown Brock, J.P. ...	... 1837—1854
Matthew Gibson	... 1854—1857
Edward Higginson	... 1858—1876
Arthur Ransom	... 1872—1873
George Hamilton Vance, B.D. ...	... 1874—1876
J. E. Manning, M.A.	... 1876—1889
William Alfred Clarke	... 1889—1892
Thomas Robinson	... 1893—1898
William Tudor Jones, Ph. D. ...	... 1899—1906
Simon Jones, B.A.	... 1907—1918
Dr. Hurn	... 1919—1922
R. J. Hall, M.A.	... 1922—1930—

EGLWYS Y BEDYDDWYR.

A hanes hon yn ol ymhell ond ni roir ond gweinidogion yn nydd yr anesmwytho.

Thomas Phillips	... 1779—1783
Benjamin Morgans	... 1784—1791
John Williams	...1791/92—1796—
John Rees	... 1794

(Aeth oddeutu deugain ymaith, ac ymgorffolasant yn eglwys wahanol, a hwy oedd dechreuad yr eglwys bresennol, oblegid nid yw yr hen yn bodoli fel eglwys berthynol i'r Bedyddwyr Neilltuol, canys y mae yr ychydig ag ydynt yn aros yn Undodaidd. Jones, H. y. B.).

EGLWYS BACK LANE.

Daniel Jones	... 1792—1800

EGLWYS TY'R ENGINE.

Nathaniel Williams ... ... —

EGLWYS Y BEDYDDWYR CYFFREDINOL.

Thomas Jenkins ... ... 1807—1811—
Job David ... ... —1811—
William Morris—Fe'i lleolir o leiaf yn Abertawe—yn fyw yn 1838.
Philip Richards ... ... —1832—
Benjamin Davies ... ... —1846—
Evan Lloyd ... ... 1850—1860

Taith Hynod.

RHYW ddiwrnod y llynedd ynghanol yr haf, yn gynnar y bore, a'r hinon yn braf, cychwyn'som yn gwmni am ddydd o fwynhad, am siwrnai'n y "siarri" o amgylch y wlad. Cyn myned ymhellach, rhaid dweyd o ba le y darfu i'n gychwyn: Llanbedr oedd y lle; prif dref swydd Ceredig yw'r dreflan hardd hon, a rhif ei thrigolion rhyw ddwyfil ymron. I godi yn brydlon ein hawydd oedd fawr, o byddai yn ddichon, ar doriad y wawr; i'n deffro, ni raid fyddai galw yn hir; ni raid fyddai galw ond unwaith yn wir. Y fan y cychwyn'som oedd Neuadd y Dre'; ac erbyn yr amser y "siar" ddaeth i'r lle; ynghanol banllefau y dorf aed i'r daith; y dydd oedd yn fyr, a'r ffordd oedd yn faith.

Trwy'r lleoedd a ganlyn yr aed yn y man: dros afon fawr Teifi i bentre Cwman, Pencarreg, Llan-byther, Llanllwni, a'r Bryn, ac yna yn union i bentre' Cross Inn. Trwy bentre' Pencader fe aethom yn chwim, ac yna Alltwalis, heb aros er dim; ond afraid yw enwi pentrefi dinod; Caerfyrddin i'r golwg sy'n fuan i ddod. Bu hon yn dre enwog yn hanes y Dê; bu brwydro lled ffyrnig o amgylch y lle; ei chastell fu'n gryf amddiffynfa rhag brâd; ei daear a gochwyd yn fynych gan wâd. Pan drechwyd y Cymry trwy ystryw a thrais gan allu gorlethol, gormesol y Sais, Caerfyrddin, yr unpryd, a gollodd ei chlôd; mewn ystyr filwrol hi ddaeth yn ddinôd. Fe welsom, wrth fyned o honom i'r drê, 'r hen dderwen yn sefyll yn gam ar y ddê; daeth atgof o'r hen broffwydoliaeth ar hyn, y troid y dreflan ryw adeg yn llyn. Rhag digwydd

i hynny droi allan yn ffaith, tybiasom mai gwell fai i'n frysio i'r daith ; ac o dre' Caerfyrddin ymadael a wnaed, a thua swydd Penfro yn gyflym yr aed.

Cyrhaedd'som yn fuan i barthau Tygwyn ; yr oeddym ar ffiniau swydd Penfro bryd hyn ; ac yno yr oeddym mewn gwlad o'n dau tu tra enwog yn hanes y Gymru a fu. Bu yma d'wysogion yn trigo ryw ddydd, tra'n gwlad o hualau y Saeson yn rhydd ; diflannodd ei gwychter, dirywiodd ei bri ; yn awr dim ond tref amaethyddol yw hi. 'R ol aros am ennyd yn Nhygwyn-ar-Daf, a'r haul yn disgleirio o'n hamgylch yn braf, i Ddinbych-y-Pysgod yn nesaf yr awd, yn frysiog a hynod o fywiog ein hawd. O weled prydferthwch di-gymar y wlad, doi inni ddi-gymysg a pheraidd fwynhad ; a theimlem fod popeth yn dwyn in' ryw swyn a wnai bob rhyw feichiau yn hawddach eu dwyn. Yn Ninbych rhaid aros rhyw awr, 'falle fwy ; hi ydyw brenhines y Dê meddent hwy ; ei safle ddymunol yn ymyl y don a ddena gryn nifer am wyliau i hon. Ar ol inni weled y dreflan i gyd, cerddasom y draethell yn llwyr ar ei hyd ; a gwelsom yn codi yn uchel ei phen ynysig y Caldey yn syth tua'r nen. " Pa beth yw'r adeilad gwych, cadarn y sy' yn codi ei dyrau i'r entrych mor hy' ? " " Mynachty yw hwnna," oedd ateb rhyw wr ; " Mynachod yw 'i unig driganwyr yn siwr." Y cylla, ar hyn, mewn gwrthdystiad a gwyd, a geilw yn erwin am damaid o fwyd ; os nad ei ddiwallu yn fuan a wnaem, terfynu'n diwrnod tan alaeth a gaem.

Ar ol inni dorri ein cythlwng am dro, ail-gychwyn a wnaethom am dreflan Pen Fro ; ac ar y trosglwydd-fad croesasom y " bau," ac aethom i Milffwrdd yn hynod o glau. Wrth groesi yr Hafan, fe ofnem yn fawr mai boddi a fyddai ein tynged yn awr ; ond hwyliau y bâd-long hyd wyneb y lli' yn esmwyth, a'r " siarri " a'i lwyth gyda hi. O Milffwrdd nid ydoedd y pellter ymhell i Hwlffordd ; tybiasom yn unfryd mai gwell fai inni brysuro ymlaen yn o chwim, heb gymryd ein lluddias yn unman gan ddim. Am awr buom yno, dim mwy a dim llai ; ac yna i ddinas Ty Ddewi yn glau ; nid cynt daethom yno na theimlem yn wir ein bod mewn awyrgylch ryfeddol o bur. Fan yma mae Eglwys henafol o fri; prif Eglwys Esgobaeth Ty Ddewi yw hi ; o'i deutu tawelwch deyrnasa o hyd ; nis blinir gan ddwndwr na ffwdan y byd. Wrth rodio'i chynteddoedd, fe deimlem, yn wir, fod ysbryd Sant Dewi o hyd yn y tir, yn galw'i gydwladwyr i ddilyn ei ôl, ac i lwyr ymwrthod â phopeth sy'n ffol. Ond cefnu bu raid in' ar ddinas mab Non, er cryfed ein hawydd i dario yn hon ; a theithio a wnaethom yn frysiog rhag blaen, nes dyfod o honom i dref Abergwaen.

Fel 'r oeddym yn nesu at ymyl y dre', cofiasom am ddyfod y Ffrancod i'r lle : y tlwyddyn bu hynny—os ydyw yn ffaith—oedd until a seithcant a naw deg a saith. Tarawyd yr hollwlad gan ddychryn a chur, rhag ofn iddynt ddyfod yn ebrwydd i dir, cyn gellid cyd-gasglu y milwyr i'r gâd, i'w gyrru yn chwyrnwyllt yn ol idd eu gwlad. Tra buwyd yn casglu y milwyr ynghyd, yr oedd yr ardalwyr i gyd â'u holl fryd yn ceisio dyfeisio rhyw gynllun a wnai i'r gelyn arafu ei ddyfod i'w tai. A d'wedir i'r ben'wod, tan effaith eu bâr, gytuno i fyned i'r lan i Ben Gâr, gan wisgo coch-lenni, bob un fel un llaw, er peri i'r gelyn ryw fesur o fraw. Fe ledodd yr hanes yn wyllt dros y wlad : a chasglodd Iarll Cawdor ei filwyr i'r gâd : y gelyn oedd isel ei ysbryd yn awr : bu raid iddynt roddi eu harfau i lawr. Cyn cychwyn, ymweled a Gŵdie fu raid ; nodweddir y lle gan brysurdeb di-baid ; a d'wedir mai cymydd fydd iddo o hyd nes dyfod ohono'n brif borthladd y byd.

Ymlaen tua Threfdraeth yn nesaf yr awd : dim byd i'n diddori fan honno a gawd ; ac yna brysiasom yn aiddgar ymlaen i dref Aberteifi- henafol ei graen. Bu yma drafnidiaeth arforawl lled fawr ; ei phorthladd sy'n ddistaw a segur yn awr ; er hynny, mae'r dreflan yn hynod o fyw ; ar ol mewn trafnidiaeth un mymryn nid yw. Fan yma, un adeg, 'r oedd carchar y Sir, pan ydoedd drygioni'n blodeuo'n y tir : un olion o hono yr awron nid oes ; gwir arwydd o hynny o welliant ein moes. Pan oeddym ar gychwyn cryn ddadleu a fu a'i doeth oedd ymweled â Gwbert-on-Sea ; terfynwyd y dadleu trwy godi y llaw : o honom dros fyned fe gafwyd fod naw. Ni fuwyd yn hir cyn cyrhaeddyd i'r lle : un fangre mwy unig nid oes tan y ne' : ni thorrai ar ddistaw dawelwch y fan ond cri y gwylanod o amgylch y lan. Am wyliau ymhell o ofalon y byd, yn rhydd o bob gwaith a'r ffwdanau i gyd, 'd oes le mwy dymunol na Gwbert i'w gael : awelon y Werydd chwyth arno'n ddi-ffael. Am ennyd eisteddsom ar golofn o graig, gan yfed iachusol awelon yr aig : pe gallem fod yma am wythnos neu ddwy, ni ddoi un anhwylder i'n blino byth mwy.

Ond gan fod y dydd yn ddiweddar brynhawn, hyd ffordd Aberaeron ein taith a barhawn : ac fel y prysurem yn ddiwyd ymlaen hardd "fau" Aberteifi a welsem o'n blaen. Ein meddwl ar edyn dychymyg yn chwai yn ol dros ganrifoedd di-gyfrif a ai : a gwelem yr adeg pan ydoedd y pant yn ddolydd meillionog a threfydd rhyw gant. Ond gan i Seithenyn i feddwi un tro, y môr mewn un noson orlifodd y fro : a Chantref y Gwaelod "y gelwir y "bau" ; a dyna y gelwir ef byth yn ddiau. Ymhell dros y cefnfor fe welid yn glir ynysig yr Enlli ar flaen Arfon dir : yn sefyll yn wyneb y Werydd mae hon i dorri grymuster dinystriol y don. Mynyddoedd Caernarfon a godai eu pen yn uchel hyd ymyl cymylau y nen ;

o syllu yn fanwl, canfyddem ryw wawr o'r Wyddfa'n y pellter fel rhyw anferth gawr. O weld rhyfeddodau ar for ac ar dir, ni wel'som yr amser mewn unmodd yn hir ; rhwng popeth a'i gilydd yr amser a aeth, a chroesffordd y Synod yn gyflym a ddaeth. Yn union fe ddaethom i bentre' lled fawr. " O dwedwch, yriedydd, ble'r ydym ni nawr ? " " Beth ddwed'soch ? Ond Llanarth—ond Llanarth yw hwn. Nid oes ei brydferthach yn unman mi wn." A chyn pen ychydig funudau 'r ol hyn, i dref Aberaeron yr aethom yn dyn ; a brysio a wnaethom i Westy y Plu' ; a hynod o wresog fan honno a fu.

Ar ol ein diwallu â phryd da o dê, yr oeddym yn barod i fynd tua thre' ; yr heulwen a suddai yn gyflym i lawr. a'n blinder oedd bellach yn hynod o fawr. Hyd lannau yr Aeron yr aed tua thre' ; yn siwr, eu prydferthach nid oes tan y Ne' : wrth nesu at Ystrad y dyffryn a daen yn eang gyfanwel ysblennydd o'n blaen. Cyrhaeddwyd i " Lambed " ychydig yn gynt na thybiem y bore wrth ddechreu ein hynt ; er hynny y trefwyr i'n cwrdd ddaeth yn llu ; a gwresog i'r eithaf ein croeso a fu.

D.E.

Gip.

NID oes raid petruso dim na throi dail geirlyfr. Nid enw dieithr o un o'r ieithoedd marw nac ogam ar garreg ychwaith mohono ond enw un o greaduriaid diniweitiaf a greodd Duw erioed. Nid amcanaf gyrraedd unrhyw nod, ond ysgrifennaf rywsut fel y tyf y rhosyn gwyllt neu " goesau brain " heb wahaniaeth a wel neb mohonynt. Rhaid cyfaddef i mi sgriblan llawer yn fy nhro ond o raid fynychaf. Yr wyf innau bellach yn gweld y dalar a diddorol fydd cerdded yno a gweld arall yn tynnu cwys. Ni ddeuaf dan y First Offender's Act fel y mae gwaethaf y modd. Yr wyf fel oen ar dalar honor yn wynebu y ddrycin. Ni cheisiaf ymesgusodi ychwaith oherwydd ysgrifennaf o gariad nid er diddori neb ond am na fedraf beidio. Yr wyf yn bodloni fy hun o leiaf. Fe beidiwn pe gallwn. Fe lif ambell bwt o erthygl ohonof yn debig i Theomemphus Pantycelyn fel gwe'r coryn o'i gorff ei hun. Sylwais dro ar rywrai yn gwneud coesau brain ar fy mhapurau. Tybient eu bod yn ysgrifennu. Yr oeddent yn eu tfordd eu hunain. Felly finnau. Yr wyf fel hen wr yn mynd dros droion slawer dydd ac yn mwynhau fy hun o leiaf. Nid oes waeth am arall.

Edrychaf ar yr enw "Gip" Galwaf ond ni ddaw. Edrychaf dan y ford. Disgwyliaf ei chlywed yn dod i fyny ataf gan rwgnach yn y drws oni chaiff ddod i mewn. Treiniaf drwy'r ffenestr. Nid yw yno. Gorweddodd oriau hir yno yn fy nisgwyl i ddod. Pan ffinai pawb arnaf ni ffinodd hi. Fe'm dilynai lle bynnag yr awn. Ni ddanododd i mi erioed fy oedi hir. Yr oedd yn falch fy ngweld. Ni chawn droi heb iddi fy ngwylio.

Fe ddwed y bobl a wyr bopeth nad oes enaid gan gi. Ni wn. Ni phroffesaf wybod ond gwn fod mwy o enaid yn *Gip* nag mewn cannoedd o bobl y gwn amdanynt. Ni phetrusaf ychwaith ddywedyd fod mwy o obaith Nefoedd ganddi na llu o bobl a gredant eu bod yn *respectable* a duwiol. Pe goddefid imi arfer termau cysegredig, mi ddywedwn fod *Gip* yn Gristion. Dwn i ddim beth ydoedd. Ni wn enwau cŵn. Hwyrach mai *mwngrel* ydoedd. Yr oedd i rywrai yn *fwngrel* er na wn i mo'i ystyr ond os oes iddo ystyr ddrwg, tawed y neb a gred hynny. Ni fedraf mo'i oddef.

Gast fach frwesog a blewog ydoedd. Rhyw fath ar derrier debig iawn. Nid oedd yn *glefar* fel y myn rhai pobl fod eu cwn. Ni fedraf i ddweyd amdani fel un dyn am ei gi—yr oedd mor glefar fel y gwrthododd fynd a llythyr i'r post am fod Mr. ac Esq. arno. Nid un felly oedd Gip. Ni fedrai chware campiau. Ni cheisiodd erioed ddal ei chwt. Yr oedd y gwt yn rhy fach i'w dal chware teg iddi. Ni fedrai neu yn hytrach ni cheisiodd sefyll ar ei thraed ol a begian. Ni chredaf iddi erioed weld eisiau bwyd. Ni orfodwyd iddi hi mwy na minnau eto i fegian am fwyd.

Nid oedd fawr o galondid ynddi wrth warchod y ty. Yr oedd yn rhy ddiniwed i gnoi neb. Medrai hi fel finnau gyfarth yn iawn ond anaml y bydd neb y sy'n cyfarth yn cnoi. Ar agor y mae pen y neb y sy'n cyfarth ac nid oes raid ofni. Ci distaw y sy'n cnoi bob amser. Nid oedd dim yn ddistaw yn *Gip*. Yr oedd yn croesawu pawb—y tramp a'r cyfoethog. Nid oes gof gennyf iddi geisio cnoi ond unwaith. Ni chnoai er anddiffyn ei hun, ond un diwrnod yr oedd yn hebrwng dwy fach i'r ysgol fel y gwnai *Gip* fynychaf bob dydd. Yr oedd *rhyferw* yn estyn ei law er cael gafael ar un ohonynt a *gwatai* o'r tu ol i mi. Yr oedd hyn yn ormod i *Gip* ddiniwed. Teimlai fod eu gofal arni a gwnaeth na wnaeth byth cynt nac wedyn—neidiodd yn ffyrnig am y llaw.

Yr oedd pobun yn y dre yn ei hadnabod ac yn garedig iddi. Lawer tro yr aeth fel "Oen swci Mair" 'slawer dydd i'r ysgol. Ni aflonyddai ar neb ond mynnai ddangos ei chariad at y sawl a garai. Neidiai, cusanai, gwnai umpeth a phopeth er dangos ei chalon. Cafodd ei magu a'i gyrru yn y pram am oriau. Yr

oedd yn well nag un ddol. Yr oedd yn deall a geisiai'r fam ganddi —yn well na dol o leiaf. Wylai fel plentyn o gael ei hanghofio. Yr oedd yn adnabod hyd yn oed sŵn y car yn dod. Ni chloffai at swn troed un ohonom. Ni thwyllid mohoni. Yr oedd ganddi ddau lygad mawr a gwirion. Edrychai ym myw eich llygaid a darllenai eich enaid. Yr oedd *Gip* o leiaf yn drue. Ni hudid mohoni gan neb na dim. Yr oedd yn gartrefol ac yn ffyddlon. Fe ddwed rhywun nad oedd ond gast wedi'r cwbl. Ie digon gwir, ond fe welwch yn ambell gi gyfaill diniweitiaf a ffyddlonach na dynion. Fe garwn i pe bai calon *Gip* gennyf. Ni ddaliai wg at neb. Ni bu yn gas i undyn erioed. Yr oedd ei dau lygad gwirion fel dwy ffenestr er i chwi weld fod calon fawr mewn corff bach. Fe broffesa dynion yn aml eu bod yn drue a ffyddlon ond rhowch i mi ffyddlondeb tebig i eiddo *Gip*. Dyma ffyddlondeb hyd angau. Bum oddicartref eleni. Ni chredaf iddi fod awr yn gysurus. Cerddai gylch y ty a thrwy yr ardd ac er fod arall yn gofalu ni thyciai ddim. Yr oedd hiraeth arni, ac wedi dod yn ol ni chaem fynd o'i golwg. Yr oedd ofn ein colli eilwaith arni.

Y mae wedi mynd ac er mai gast fach ydoedd y mae'i lle yn wag. Daeth angau ati hi fel at ddyn. Aeth fel arfer i gyrchu'r plant o'r ysgol. Rhyw ffarwelio megis dyna i gyd. Cyn pen awr yr oedd wedi dianc ymaith. Y mae dyn yn colli llawer peth heb weld ei eisiau. Collais innau rai pethau yn ystod yr wythnos heb weld eu heisiau, ond y peth pennaf ac anwylaf a gollais yn ystod yr wythnos ydoedd *Gip*, ac yr wyf yn gweld ei heisiau.

N. a N.

Dirgelwch ein Ffawd.

TREULIA dyn ei dymor ynghanol rhyw ddirgelwch rhyfedd iawn; braidd y mae angen dyweyd hyn, oblegid y mae'r peth mor hynod o amlwg. Trown ein golwg i ba gyfeiriad bynnag a fynnom, dim ond dirgelwch a'n hwyneba: tua'r gorffennol, dim ond dirgelwch; o'n cylch, dim ond dirgelwch; tua'r dyfodol, dim ond dirgelwch.

Ffurfia dyn lawer o ddamcaniaethau parthed yr aml gwestiynau a awgrymir gan y dirgelwch hwn. Dyna un nodwedd amlwg o hanes—dyn yn ffurfio damcaniaethau. Dyna beth yw cryn lawer o gynnwys y Beibl—damcaniaethau. Dyma beth yw cryn lawer o gynnwys holl Feiblau'r byd—damcaniaethau. Yn fynych, syrth

dyn i'r camsynied o ystyried y damcaniaethau hyn fel yn gyfystyr â gwybodaeth. Dylid bod ar wyliadwriaeth rhag syrthio o honom i'r camsynied hwn, a dysgu tynnu'r llinell rhwng y ddeubeth lle y dylai fod.

Y mae cylch gwybodaeth dyn, fodd bynnag, yn eangu'n gyflym. Y mae gwybodaeth dyn parthed y byd materol wedi eangu'n fawr iawn ynghwrs y blynyddoedd diweddaf. A dwg y wybodaeth hon adref atom gyda nerth cynhyddol o ddydd i ddydd y fath fydysawd rhyfeddol yw'r bydysawd y trigwn ynddo. Rhyfeddol ydyw ar gyfrif y ffaith ei fod (belled ag y medr dyn weld) yn fydysawd heb ddechreu iddo. Cludir ni gan hynny o wybodaeth a feddwn parthed oedran y ddaear, heb son am y bydysawd yn gyfan, yn ol i bellterau na fedr dyn ffurfio un amgyffred amdano. Rhyfeddol yw'r bydysawd, hefyd, am resymau eraill—ar gyfrif ei faintioli, ar gyfrif y ffaith bod pob rhan o hono'n ddarostyngedig i'r un deddfau sefydlog, anghyfnewidiol, ar gyfrif y drefn berffaith a'i nodweddda. Daw'n fwy-fwy rhyfeddol fel yr eanga gwybodaeth dyn, ac y llwyddir i dreiddio'n ddyfnach i'w dirgelion.

Dirgelwch a deyrnasa o gylch bywyd dyn, hefyd, nad o ba gyfeiriad y sylwn arno. Cyn lleied ŵyr dyn am dano'i hun—o ba le y daeth, beth ydyw, i ba le y mae'n mynd—i ba le y mae'n mynd yn enwedig. Bu gweledyddion, proffwydi, athronwyr, beirdd yn ddyfal wrth y gorchwyl o chwilio am belydrau o oleuni ar ddyfodol dyn. Yng ngoleu cynnyrch ymchwiliadau'r bobl hyn y rhodiwn ni. Braidd y sylweddolwn faint ein dyled iddynt: heb eu cymorth, yn y tywyllwch dudew, heb un pelydryn (o leiaf, heb ond pelydrau gwan) o oleuni y'n gorfodid i redeg ein gyrfa. Gwerthfawr hwnt i ddisgrifiad yw'r pelydrau hyn o oleuni a lewyrcha ar ein llwybrau—pelydrau o lampau dynion eraill.

Yn ein dydd ni, gellir ychwanegu dosbarth arall at y dosbarth a ennwyd, sef, y gwyddonwyr, fel ategwyr o'r olwg grefyddol ar bethau, yn enwedig o'r olwg grefyddol ar ddyn. Bu adeg, heb fod ymhell iawn yn ol, pan dybid fod crefydd a gwyddor yn elynion i'w gilydd—fod gwyddor yn gweithio tan sylfeini'r olwg grefyddol ar bethau. Sefyllfa hollol di-alw-am-dani oedd hon: ac yr oedd cryn dipyn o'r bai ar bob ochr—ar ddiwinyddion a gwyddonwyr. Y mae'r sefyllfa, erbyn hyn, yn dra gwahanol: deuir i weld nad oes un galw am elyniaeth rhwng crefydd a gwyddor, y gall ac y dylai pob un o honynt fod yn gydweithwyr yng ngwinllan fawr y gwirionedd. Ennill mawr iawn yw hyn—mor fawr, fel na fedrwn, eto, ei fesur.

Beth am ddyn, ynteu, yng ngoleu gwybodaeth eangach ein dydd ni? Cawn ateb yng ngeiriau Syr Oliver Lodge mewn anerchiad diweddar o'i eiddo. "Ni allaf bwysleisio'n ormodol y ffaith nad

â dim allan o fod," medd Dr. Lodge. " I hyn nid yw'r ysbryd dynol yn eithriad. Nid oes terfyn i fodolaeth dyn. Meddwl ofnadwy yw hwn—bod dyn i barhau i fodoli am byth." Geiriau un o wyddonwyr dysgedicaf ein hoes yw'r rhai hyn.

Yn yr un anerchiad, sylwn—fod popeth trwy'r holl fydysawd yn ufuddhau i ddeddfau sefydlog, anghyfnewidiol ; fod popeth a ddigwydd yn digwydd, nid yn ddamweiniol, ond mewn ufudd-dod i ddeddfau ; nad oes y fath beth a damwain yn yr holl fydysawd—mai gair hollol ddiystyr yw'r gair damwain. Ufuddhau i ddeddfau a wna popeth—popeth, gyda'r eithriad o ddyn. Y mae dyn wedi'i ddonio a rhyddid Ewyllys : gall ufuddhau neu beidio ufuddhau i ddeddfau'i fod. Yn y meddiant o'r rhyddid hwn y gorwedd mawredd dyn ; a'i gyfrifoldeb hefyd. Y mae tynged dyn yn hollol —ymron yn hollol, o leiaf— yn ei law ef ei hun. Dyma sylwedd yr anerchiad. Y mae gwerth y syniadau a draethir ynddi yn gorwedd yn y ffaith mai Dr. Lodge a'u traethodd.

Y mae'r olwg grefyddol a'r olwg wyddonol ar ddyn, felly, yn dod yn gyflym i gytgord â'i gilydd. Y mae tynged dyn, yn ol pobun o'r ddau, yn ei law ef ei hun. Yn ol y gwyddonwr, i'r hwn a ufuddha y mae gwynfyd. Yn ol y Testament Newydd, i'r hwn a gâr Dduw y mae gwynfyd. Nid oes un gwahaniaeth rhwng y ddau. Y mae ufudd-dod a chariad yn dilyn ei gilydd : ni ellir un heb y llall. Y mae'r peth yn rhyfeddol o syml. Ond er yn syml, y mae hanfod crefydd yn y ddeuair hyn.

Nid yw o fawr gwahaniaeth, medd rhywun, beth a gredwn am ddyn. Bradycha'r dull hwn o siarad gryn fesur o amheuaeth, hyd yn oed o anffyddiaeth : cystal a phe dywedid, " Lle y syrth dyn yno erys." Eithr gwell gennyf gredu gyda'r gwyddonwr nad â dim allan o fod ; a chredu gyda Iesu fod tynged well na difodiant yn aros dyn : fod tynged yn aros y dyn a gâr Dduw nad yw neb, eto, yn abl i amgyffred pa mor ogoneddus ydyw.

D.E.

Pan Gilia'r Niwl.

AMINNAU yn disgwyl gweld bore braf o Hydref, mawr fu fy siom wrth weld pob man o tan fantell ddu o niwl tew ; pob coeden a'i mil o fân-reffynnau, pob tŷ a'i oleuni yn disgleirio drwy'r ffenestr fel pryf-tân yn y clawdd ar noson o aeaf, a phob wyneb a gyfarfyddwn ar y stryd mor siomedig a'm un

innau. Prin y medrem weld yn groes i'r ffordd, a swn y cerbydau yn dynesu oedd yr unig rybudd a gawsem.

"Y nos dywyll yn distewi
Caddug yn cuddio Eryri."

Er cymaint y son am gaddug Eryri, amheus gennyf a fedrai hyd yn oed hwnnw fod yn fwy trwchus na'r niwl hwn.

Ar balmant y dref ymlwybrai hen wr yn fyr ei gam, a'i wallt yn wynnach o tan effaith y niwl, a'i war fel pe yn fwy crwm o dan bwysau'r llenni llaith.

Ehedai fy ngobaith i yn uchel wrth feddwl am glirio o'r niwl, a minnau yn medru symud ymlaen yn fwy chwim. Ond druan ohono ef! er clirio o'r niwl nid oedd gobaith i'w gerddediad ef ddod yn fwy heiny.

Ychydig yn nes ymlaen wele'r fam yn hebrwng ei phlentyn bach i'r ysgol. Mae wedi ei ddanfon hyd olwg yr ysgol, ac yn awr teimlai'n sier ddigon y medrai droi tuag adre, a'i adael ef i fynd y gweddill o'r ffordd ei hunan. Parod oedd a'i gusan, a'i galon mor ysgafn a chalon chedydd ben bore, pan ddwedai "Good morning, mama."

Ond cynyddu wnai'r niwl, ag yntau am groesi'r stryd. Ar darawiad amrant rhedodd fel mellten yn groes, ond mor chwim a hynny wele gerbyd modur yn ei daro i'r llawr.

Beth am y niwl? Mae ef wedi mynd tuhwnt iddo yn ddiameu, ond druan o'r fam! Mae'r tewaf i ddod iddi hi eto.

Pan gilia'r niwl? Na, ni chilia'r niwl iddi byth mwy: ni wel ddim ond drwy'r niwl a wneir gan y mor o hiraeth a leinw ei llygaid.

Yr un bore, yr un niwl, a minnau yn gofyn yr un cwestiwn,—sut fyd fydd byd hon pan gilia'r niwl?

R.E.E.

"*Gwir Arwriaeth.*"

(*Rhydd gyfieithad o stori i blant gan y Parch. Bertram Lister, M.A.*).

AR Sul neillduol bob haf daw torf o bobl at ei gilydd i wasanaeth yn yr awyr agored yng Nghucklett Dell, Eyam, pentref bychan ar ymyl Rhanbarth y Peak yn swydd Derby, er cofio un o ddigwyddiadau o arwriaeth wir a wna bob bachgen a merch yn falch o'i famwlad ac o'r bobl a'i gwnaeth yr hyn ydyw. Hanes yw am *bluck* hafal i ddim a ddangoswyd ar unrhyw faes y gad, oherwydd ar y cadfaes fe gludir dyn yn ei flaen gan y cynnwrf, ond yma ni fedrai'r bobl wneud dim ond aros . . . aros . . . i'r farn a oedd yn rhwym o ddod anrynt cynt neu hwyrach. Adeg y Pla Mawr yn Llundain ydoedd—1665.

Daeth parsel o frethyn o Lundain i deiliwr yn y pentref tawel. O'i agor gwelwyd fod y brethyn wedi lleitho ac fe'i rhowd o flaen y tân i sychu. Cariodd y brethyn y pla, a buan buan bu farw'r teiliwr oherwydd trafod y brethyn o'r pla—un o glefydau mwyaf brawychus yr oes a chlefyd hefyd y dyddiau brwnt hynny nad oedd obaith am wellhad ohono. Ychydig feddyliodd y pentrefwyr y buasai agor y parsel a ddisgwyliai y beehgyn a'r merched gymaint yn cyhoeddi barn ar y pentref a gwneuthur i'w enw fyw am ganrifoedd am arwriaeth anghyffredin ei bobl.

Nid oedd y teiliwr ond y cyntaf. Cyn diwedd y mis bu pump eraill farw ohono. Ni fedrai hyd yn oed oerni y gaeaf ladd y pla, a chyn diwedd Mai yr oedd 77 o'r 350 wedi marw. Gyda'r tywydd teg cynddeiriogodd y pla fel erbyn Hydref 1666 nid oedd ond 83 yn fyw yn y pentref.

Nid rhif y meirwon serch hynny y sy'n gwneud hanes Eyam yn gofiadwy. Y mae'n rhaid anrhydeddu enw un dyn yno am byth am yr hyn ydoedd ac a wnaeth, ac am y ffordd yr oedd ei bobl annwyl ar ei awgrym ef yn barod i aberthu eu hunain er mwyn y rhai a oedd yn byw yn y trefi a'r pentrefi cyfagos. Y dyn hwn oedd William Mompesson, ficer Eyam. Gwelodd os oedd i wneud ei ddyletswydd fod yn rhaid iddo nid i ffoi am ddiogelweh ond aros gyda'i braidd a ai yn llai llai bob dydd.

Yn cael ei gynorthwyo gan y ficer Puritanaidd yr oedd ef wedi cymryd ei le, gwnaeth Mompesson a allai dros y dioddefwyr a

thros y rhai nad oeddent hyd yn hyn wedi eu dal gan y pla. Yr oedd arnynt angen am help a gweinyddiadau eu harweinydd: rhaid iddo siarad geiriau o gysur a gobaith a chalondid iddynt yn nydd rhaid. Ond gwyddai y buasai eu crynhoi i Eglwys y pentref yn ffordd sicr o ledaenu'r pla. Galwodd hwy felly at ei gilydd Sul ar ol Sul yn yr awyr agored. Y mae'r ardal hon yn llawn dyffrynoedd a bryniau: ymestyn dyffryn felly megis gogyfer a heol y pentref: i'r dyffryn hwn y galwodd ei braidd. Safai ef ei hun mewn agoriad yn y graig (a elwir hyd heddiw yn Eglwys Cucklett) ar un ochr, a'r bobl ar ochr y bryn cyfagos, ac felly y caent eu gwasanaeth crefyddol. Nid dyna'r cyfan ychwaith.

Gofynnodd i'w bobl i gyd-gyfranogi ag ef mewn un weithred fawr arwrol o hunanaberth. Fel y cynhyddai rhaib y pla, troe meddwl llawer un at ffoi: onid oedd ganddynt gyfeillion a cheraint yn y pentrefi cyfagos lle y medrent aros nes cilio o'r perigl?

Oedd, ond beth am y *risk* i'r ffrindiau hynny? Pe gafaelai panig ynddynt a llawer yn ffoi, buasai rhai ohonynt yn sicr o ddwyn y pla gyda hwynt gan ei ledaenu hwnt ac yma drwy'r fro. Pan sylweddolodd ef hyn, y gofynnodd iddynt wneud yr aberth pennaf. Awgrymodd iddynt ffurfio o'u gwirfodd gylch am y pentref gan roi eu gair i beidio croesi'r ffin. Yr oedd hyn yn ofyn llawer. Torrai ymaith ddiogelwch oddiwrthynt. Golygai i bob un ohonynt ragolwg, a rhagolwg didroi'n ol o angau ofnadwy.

Ni thyciai ddim. *Yr oeddent yn fodlon i aros am angau sicr yn hytrach na lledaenu'r pla ymhlith craill.* Cadwasant eu haddewid yn ffyddlon. Nid oes ond ychydig ddigwyddiadau yn ein hanes a ddengys ysbryd tecach o arwriaeth na hwn.

Llwyddwyd i fynd tros yr anhawster o gael bwyd drwy ofal nodweddiadol Mompesson. Ar ei awgrym addawodd Iarll Derby a drigai yn Chatsworth gerllaw i wneud a allai, a doi craill tuallan i'r ffin a'u cyfraniadau. Gadewid y nwyddau mewn mannau penodol ar y ffin ac eid i'w hymofyn gan un o'r pentrefwyr wedyn. Os gofynnid tâl, gadewid yr arian hyd drannoeth mewn dwr rhedegog afon neu ffynnon—er ei olchi cyn y buasai'r perchennog yn ei drafod.

Danghosir man felly hyd heddiw. Ffynnon Mompesson ar ochr bryn Sir William i'r pentref lle y rhed y dwr o hyd yn glir ac oer. Nid yw ond ffynnon ddinod mewn lôn fer ar ochr y bryn yn arwain i ryw gaeau, ond mor llawn o atgofion ac ysbrydiaeth i'r neb a ŵyr yr hanes.

Y mae yna bethau craill yn Eyam gwerth craffu arnynt megis Croes Saxonaidd, yr Eglwys, y *Stocks*, y Neuadd a golygfeydd ardderchog. Ond fe â y rhai hyn yn ddim gerllaw hanes anghyffredin y pentrefwyr syml hyn yn 1665—1666. Y mae dros ddau gant a hanner o flynyddoedd er iddynt fyw, eto bob blwyddyn, ar y Sul yn wythnos Gwyl mabsant cynhelir gwasanaeth coffa yn yr un dyffryn—lle bu Mompesson yn pregethu a gweddio.

Nid yw Eyam ond pentref bach eto, ond y mae wedi "gwneud hanes." Gwyddom hyd yn oed yn y pentrefi "fod cewri yn y tir yn y dyddiau hynny."

O.

Priodas.

Hydref 18, yng Nghapel y Graig, Llandysul, gan y Parch. T. Arthur Thomas, unwyd mewn glân briodas Mr. Ivor Treharne, Cartref, Pont-twely, Llandysul â Miss Margretta Frances Evans, merch ieuengaf Mr. John Evans, Wilkes Head Hotel, Llandysul. Y bendithion goreu a'u dilyno.

Marwgofion.

Medi 14, yn 61 mlwydd oed, Mr. John Jones, Ceginan. Yr oedd yr ymadawedig yn fab i'r diweddar Mr. Edward Jones a Mrs. Jones, Ceginan, ac yntau fel ei rieni a'r teulu yn fawr ei barch yn yr ardal. Pan lododdy newydd drwy yr ardal nad ydoedd Mr. John Jones mwy, llanwyd pob calon a thristwch a siom. Yr oedd yn un o rodiad cywir a glân, yn chwenychu'r encilion, ac un fu asai'n barod i helpu gyda phob galwad am wasanaeth. Cydymdeimlir yn fawr a'i briod, ei unig ferch, ei fam oedrannus, brodyr a chwiorydd yn eu profedigaeth lem. Y dydd lau dilynol claddwyd yr hyn oedd farwol ohono ym mynwent Capel Pantydefaid, y Gweinidog yn gwasanaethu.

Y 4ydd o Hydref, yn 80 oed, bu farw Judith Davies, Unity Cottage, Capelygroes, ar ol cystudd caled o amryw fisoedd, a ddioddefodd yn amyneddgar, gan adael tair merch, un mab, nifer o wyrion, a pherthynasau agos eraill, mewn galar. Bu hi a'i phriod yn byw yn "Nhy'r Capel" Capelygroes am yn agos i ddeugain mlynedd (bu ei phriod farw rai blynyddoedd yn ol); hwy oedd y cyntaf i fynd iddo wedi'i adeiladu; a llanwodd y ddau eu lle er boddlonrwydd cyffredinol y gynulleidfa a'r llu ymwelwyr. Ewyllysgar iawn

ydoedd i wneuthur popeth a geisid ganddi ac a allai dros yr achos; ac enillodd barch pobun a ddaeth i adnabyddiaeth o honi. Ai pobun i "dy'r Capel" yn eofn, a chai pawb groeso gwresog ganddi; a chwith iawn a fydd mynd i Gapelygroes heb ei bod hi yno. Perthynai iddi lawer o elfennau cymeriad dymunol iawn—ysbryd tangnefeddus, tymer nas cythruddid yn rhwydd, didwylledd gair a gweithred, caredigrwydd yn ol ei gallu a hwnt i'w gallu aml i dro. Bu'n fam dyner a gofalus, nid i'w phlant yn unig, ond hefyd i'w deuŵyr (bu un farw'n ifanc) a gollodd eu mam yn eu babandod; a thalodd yntau iddi trwy ei ofal am dani a'i dynerwch tuag ati yn ei henaint. Dydd Iau dilynol, daearwyd ei gweddillion ym mynwent Capel-y-groes, pryd y daeth tyrfa anarferol o luosog ynghyd fel arwydd o'u parch iddi. Gweinyddwyd ar yr achlysur, yn ol ei dymuniad, gan ei diweddar weinidog—y Parch. D. Evans.

Hydref 12, yn 53 mlwydd oed, Mr. David Davies, Blaenythan, ym mhlwyf Llandysul. Bu'r ymadawedig yn wael am dymor hir, ac er pob ymdrech meddygon ac ysbytai, noswyliodd yn gynnar i'n tyb ni. Yr oedd yr ymadawedig yn amaethwr llwyddiannus a goleuedig, ac un nodwedd arbennig ynddo ydoedd ei gymwynasgarwch. Ymhyfrydai i wneud cymwynas i bawb; 'roedd ei garedigrwydd yn llifo drosodd. Yr oedd yn ddiacon yn eglwys Horeb, a gwelir ei eisiau mewn llawer cylch, ond yn bennaf ar aelwyd Blaenythan. Claddwyd ei ran farwol ym Mhantdefaid y dydd Iau dilynol i'w farwolaeth. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. T. Arthur Thomas, pregethwyd yn y capel gan ei weinidog, y Parch. Tom Davies, Horeb, ac wrth y bedd gweddiwyd gan y Parch. David Jones, Gwernllwyn. Gadawodd briod ac un mab, ynghyd a pherthynasau eraill mewn galar o'i golli.

Ar yr 21ain o Hydref, yn 61 oed, bu farw Alice Mabel Hughes, gweddw y diweddar T. H. R. Hughes, Neuaddfawr, ar ol cystudd caled. Nid oedd hi o linach hen deulu'r Neuadd; daeth i'r gymydogaeth tuag 31 o flynyddoedd yn ol ar ei phriodas â Mr. Hughes. Bryd hynny yr oedd hi yn ddieithr i bobl y gymdogaeth, a phobl y gymdogaeth yn ddieithr iddi hithau. Eithr ni chollodd amser i wneud i fyny'r diffyg trwy ddod o honi, ymhob modd dichonadwy, i gyffyrddiad a hwynt ac i adnabyddiaeth o honynt; a thrwy ei haelioni a'i chefnogaeth i bob achos a mudiad daionus, trwy ei hyspryd gostyngedig na wnai un gwahaniaeth rhwng un dosbarth a dosbarth arall, fe enillodd, nid yn unig barch diffuant pobl y gymdogaeth, ond hefyd eu serch gwresocaf. Diangen enwi'r achosion a'r mudiadau y teimlai ddiddordeb ynddynt ac y gwnai ei rhan dros hyrwyddo eu llwyddiant: gŵyr y rhan fwyaf o'n darllenwyr yng Ngheredigion amdanynt. Ac yr oedd popeth a wnai yn seiliedig ar reddf grefyddol ddofn a datblygedig—fel y gŵyr ychydig o'r rhai a ddeuai i gyffyrddiad agosaf â hi. I'r Eglwys y perthynai; eithr ni wyddai ddim am gulni plaid ac enwad, fel y caed profion lawer yng nghymdogaeth Llanwnnen. Gwâg iawn a fydd ei lle yn y Neuadd ac yn y gymdogaeth o'i ddeutu. Daearwyd ei gweddillion yng Nghladdfa teulu'r Neuadd ger Hendy y Sadwrn dilynol—hi yw'r chwech a osodwyd i orwedd yno.

CALAN GAEAF.

Holwch y gwynt ar nos Calan Gaea'
Am lwch y coelcerthi fu'n llosgi mor llwyr,
Holwch y crinddail am helynt y dyrfa
A ddawnsiai yn ddeuoedd ar loriau mor hwyr;—
Ychydig yw'r henwyr a erys yn hwy
I gofio ac adrodd hen fywyd y plwy!

"*Hen Wr yr Hafod.*"

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

Llywydd—TOM BOTTING, Ysw., B.A., Y.H., Aberdar.

— Cynhelir —

CYFARFODYDD CHWARTER

— Y GYMDEITHAS —

YM MRONDEIFI

NOS FAWRTH A DYDD MERCHER,
TACHWEDD 4 A 5, 1930 . . . .

Trefn y Cyfarfodydd—

Nos Fawrth am 6.30—Gwasanaeth a Dwy Bregeth.
Fore Mercher am 10—Pwyllgor y Gymdeithas.
Nawn Mercher am 2—Gwasanaeth a Dwy Bregeth.
Hwyr Mercher am 6—Gwasanaeth a Dwy Bregeth.

Estynnir Croeso i bawb. Y neb sydd yn disgwyl llety anfoned.

T. O. WILLIAMS, *Gweinidog.*

Rhaglen y Pwyllgor—

1.—Darllen Cofnodion y Pwyllgor diweddaf.
2.—Y priodoldeb o gael llyfrynau o Essex Hall, wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg.
3.—Dewis un yn lle Mr. Tyssul Davies i gasglu yn ardal Llandysul.
4.—Adroddiad ar (*a*) Casgliadau at y Gymdeithas.
(*b*) Trysorfa'r Myfyrwyr.
5.—Lle cynnal Cyrddau'r Pasg.
6.—Unrhyw fater arall.

E. O. JENKINS, *Ysgrifennydd.*

J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2



JOHN E. JONES

(CERTIFICATED)

JEWELLER, SILVER-SMITH and OPTICIAN,

1, Wind St.,

Llandyssul.

:: Bradford House, Llandyssul ::

FOR FASHIONABLE DRAPERY GOODS.

NEWEST GOODS IN LADIES', GENT'S and CHILDREN'S WEAR NOW IN STOCK.

MOURNING ORDERS IMMEDIATELY ATTENDED TO.

E. LLOYD JONES.

OS YDYCH AM RODDI . .

Anrheg am Ffyddlondeb i'r Ysgol Sul

. . A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

'PERLAU MOLIANT'

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

: : J. D. LEWIS, : :

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.